# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)27-08

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 21 Hydref 2008
**Amser:**8.30am
**Lleoliad:**Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Arweinydd y Ty
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Ty
Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol
Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau
Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)26-08 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 14 Hydref 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i’r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu’n barod i’w cyhoeddi.

**Cam i’w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)27-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad am yr economi yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Nodwyd y drefn fusnes ar gyfer 21 a 22 Hydref 2008 gan y Pwyllgor.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)27-08(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)26-08(p3)**

3.5 Cytunodd y pwyllgor i gynnwys yr eitemau canlynol fel rhan o fusnes heblaw busnes y Llywodraeth:

Dadl Fer a ohiriwyd ers 15 Hydref 2008: Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pwy sy’n talu am y GIG mewn gwirionedd? (30 munud) ar 5 Tachwedd;

Dadl yn ceisio caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod ynghylch Gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig (Alun Cairns) (60 munud) ar 19 Tachwedd.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Y drefn fusnes**

**Papur ynghylch rheoli llif deddfwriaeth - BC(3)27-08(p4)**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 7 Hydref, gofynnodd y Pwyllgor Busnes am bapur ar reoli llif deddfwriaeth. Trafododd y Pwyllgor y papur a oedd yn egluro’r sefyllfa o ran faint o fusnes deddfwriaethol y gellir disgwyl ei weld dros y flwyddyn sydd i ddod. Gofynnwyd i’r Pwyllgor wneud nifer o benderfyniadau, gan gynnwys:

sefydlu 5 pwyllgor deddfwriaeth parhaol, gyda 5 aelod ar bob un;

sefydlu grwp o gadeiryddion pwyllgorau deddfwriaeth, a fyddai'n gyfrifol am waith craffu'r pwyllgorau dros un cyfnod deddfwriaeth neu ragor;

bydd y Pwyllgor Busnes yn neilltuo un o'r pwyllgorau deddfwriaeth parhaol i graffu ar ddeddfwriaeth pan wneir cais am hynny, gan ddewis cadeirydd o'r grwp o gadeiryddion deddfwriaethol.

Dywedodd y Rheolwyr Busnes y byddent mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau yn syth ar ôl y toriad hanner tymor ac ar ôl trafod ymhellach â'r grwpiau.

**Papur ynghylch cynnal dadleuon ar Ddatganiadau Barn - BC(3)27-08(p5)**

4.2 Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ynghylch cynnal dadleuon ar Ddatganiadau Barn, yn dilyn trafodaethau ar 23 Medi am neilltuo amser yn y Cyfarfod Llawn i Aelodau unigol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i dreialu rhai o'r cynigion. Cytunwyd ar y canlynol:

ar ôl y toriad, byddai'r Pwyllgor Busnes yn cael rhestr o'r Datganiadau Barn gyda'r nifer fwyaf o enwau yn eu cefnogi;

byddai'r Pwyllgor Busnes yn neilltuo amser yn ystod busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer cynnal dadleuon ar Ddatganiadau Barn, ond ni fyddai cynnig na phleidlais yn dilyn.

Cytunwyd y dylid llunio papur yn dangos sut y gallai'r broses hon weithio maes o law**.**

**5. Deddfwriaeth**

**Papur gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth ynghylch y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion - BC(3)27-08(p6)**

5.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y cynnydd a wnaed gyda'r Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Nodwyd y byddai Penderfyniad Ariannol ar gyfer y Mesur yn cael ei ystyried maes o law. Pan fyddai hynny'n briodol, byddai angen i'r Pwyllgor Busnes benderfynu at ba bwyllgor i gyfeirio'r Mesur arfaethedig i'w ystyried yng Nghyfnod 2, a llunio amserlen ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**